

# Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Tachwedd 8fed 2016 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones, Rhys Richards, Geraint Jones, Arwel Davies, Gwynfryn Williams, Rhys Richards, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies, Gwilym Davies, Jean Roberts ac Euros Puw.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

### i) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

#### a) Biniau Halen.

Cafwyd adroddiad gan y cler o'r ohebiaeth ddiweddar rhwng Partneriaeth Penllyn a Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r trefniadau biniau halen. Nid oedd cyfaddawd wedi dod i'r golwg hyd yn hyn ond roedd y cynghorwyr yn dal o'r farn na ddylai'r cynghorau cymuned a thref orfod cymryd unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol na thalu am y gwasanaeth yma. Cytunwyd i gefnogi cynnig Cyng. Elwyn Edwards i gwtogi ar y gwaith torri glaswellt yn yr hydref a defnyddio'r arian tuag at y gwasanaeth biniau halen.

### ii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

#### a) Cyngor Gwynedd.

i) Derbyniwyd cais i anfon gwybodaeth a fyddai o gymorth i'w arolwg o bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd.

ii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Tachwedd.

#### b) Amrywiol

i) GCGIC – Gwybodaeth am eu cyfarfodydd cymunedol

ii) Un Llais Cymru – chopi o ddatganiad ysgrifennydd y Cabinet yn cynnig datblygiadau cadarnhaol iawn ar gyfer y sector cynghorau a thref yng Nghymru.

iii) Un Llais Cymru – Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Pafiliwn Criced, Dolgellau ar y 23/11/16.

iv) Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Siawns i ddeud eich deud am Blismona – gwybodaeth am eu cyfarfodydd cymunedol.

### iii) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w gefnogi:-  
NP5/72/201A - Codi mast ffon symudol. Tir yn Fferm Pen y Bryn, Arenig.

b) Cafwyd cadarnhad bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu caniatáu:-

NP5/72/189B – Codi sied amaethyddol. Beudy Newydd, Parc, Y Bala.

NP5/72/238 – Codi estyniad ochr deulawr. 3 Cae Gwyn, Rhyduchaf.

### iv) Materion Ariannol.

a) Cytunwyd i dalu anfoneb Partneriaeth Penllyn

b) Derbyniwyd cais ariannol gan Eisteddfod Gerddol Ryngwladol Llangollen. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

### v) Materion lleol.

a) Dwr yn gorlifo i'r caeau ger Ysgubor Gerrig, Rhyduchaf.

Gofynnwyd i'r cler drefnu cyfarfod ar y safle gyda'r adran briffyrdd a Dwr Cymru i geisio darganfod ffordd i ddatrys y broblem.

b) Trefniadau gwyro traffig Dwr Cymru.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Dwr Cymru i ddatgan pryder y Cyngor i'r trefniadau diweddar pan fu rhaid cau'r ffordd dros nos er mwyn atgyweirio peipen ddŵr ger pentref Rhyduchaf. Er bod arwyddion yn cynghori'r trigolion lleol bod posib iddynt basio, nid oedd hyn yn bosib ac roedd wedi achosi problemau i'r cwmni bysiau ysgol. Pryder mwyaf y Cyngor oedd na fyddai ambiwlans nag injan dan yn gallu pasio mewn argyfwng.

c) Canolfan ail-gylchu, Y Bala.

Roedd nifer o'r cynghorwyr wedi clywed bod bwriad i godi tal ar ddefnyddwyr i ddod a rhai eitemau i'r ganolfan. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i fynegi pryder y Cyngor y byddai hyn yn achosi cynnydd yn yr achosion o dipio anghyfreithlon.